COVID-19 Update: 25th June

Here is tonight's COVID-19 update from Cardiff Council, covering: a 'how to' guide for using our recycling centres during lockdown; latest information for parents and carers ahead of schools reopening; and how the democratic process is continuing virtually.

How to use our Recycling Centres during the Coronavirus pandemic

Please see our top tips for before, during and after your visit to our Recycling Centres:

Before Your Visit

- You should only take your waste to a recycling centre if you cannot store it safely at home.
- Do not come to the Recycling Centres if you are in the vulnerable category, if you're shielding, if you're self-isolating or if you have any Coronavirus symptoms.
- You must book online before visiting. Please book a slot here.
- Do not bring any restricted items to the Recycling Centre. We are not accepting mixed bags of waste (black bags) or green recycling bags but can now accept larger items including TVs and computers / screens
- Please check what items you can bring to the sites before you visit on our Recycling A-Z.
- We're now taking booking for vans at the Recycling Centres. Vans will be able to come to the Recycling Centres from Monday 29th June. Vans will have 20mins at the centre, restricted to 1 visit per month, maximum 12 visits per year. If you have a van and a car each visit will count towards the 12.
- Sort your items when you pack your items to save you time at the Recycling Centre.
- Only pack items which you can lift into the skips on your own. Our staff will not be able to assist you to unload.
- Bring your booking confirmation email and proof of Cardiff residency to show to staff.
- Use a real-time traffic app to check how busy the roads are near the Recycling Centres before you leave for your allocated timeslot.

During Your Visit

- Do not arrive on site until 5 minutes before your time slot.
- Each vehicle will be given a maximum of 10 minutes to offload on site.
- Expect longer waiting times than normal.
- Read all the signs to help you use the site safely and observe social distancing rules.
- Be patient and respectful to staff on site and follow their instructions – delays are beyond their control.
- You will be allocated a parking bay when you arrive. If a member of staff isn't available, please follow the traffic management signs to park your vehicle.
- Wear protective gloves and use hand sanitiser before and after you drop off items. Hand sanitiser will be available on-site.

- Only one person will be able to leave the vehicle to drop off waste and approach a skip at a time.
- Recycling centres are for the recycling of **household waste only**. We will investigate and take enforcement action against anyone suspected of using the sites to recycle material from commercial activity.

After Your Visit

- When you get home from the recycling centre you should wash your hands immediately for a minimum of 20 seconds in accordance with Government guidelines.
- Visits to recycling centres are currently limited to 12 per household, per year with no more than one visit on a single day. You should only book if you cannot store items safely at home without risk of injury or harm to your health.

For more information, including an extensive list of what you can and can't bring to the Recycling Centres, visit: www.cardiff.gov.uk/recyclingcentres

Information for parents/carers ahead of schools reopening

Schools across Wales will be re-opening to some pupils from Monday 29, June and we have put together some useful information, answering the questions that parents, carers or pupils may have.

Please visit our FAQs here here to find out more about Health & Safety, attendance, the school day, catering & more.

Children and families have been asked to walk, cycle or scoot to school where possible and the Council is continuing to promote Active Travel as the safest and healthiest way to get to school.

When Active Travel is not possible, a series of new traffic schemes will be in place so that children and families can maintain social distancing safely.

27 schools sites will have road closures to facilitate social distancing at school drop-offs and picks up, meaning that children and families can utilise roads where needed.

Other measures will include the widening of pavements and pathways and the introduction of temporary 20mph limits on roads at some school sites.

For a full list of school road closures please visit here

As part of Cardiff Council's commitment to promoting and assisting active school travel, parents and children are being asked about the regular routes they take on foot or by scooter and bike to help plan the Active Travel Network Map.

To have your say and for more information please visit here

Join the conversation #ActiveTravelCDF

The Democratic Process Continues Virtually during Lockdown

During lockdown The Committee Services Team, part of Democratic Services, have set an excellent standard for Wales, working remotely to support the continuation of the democratic process by developing virtual Council, Cabinet, Scrutiny and Committee meetings and making these available online to the public via our webcast library.

The first remote Council meeting took place successfully using Microsoft Teams on Thursday 21st May, with over 70 Members virtually attending the meeting. Today's Council meeting is being streamed live, with regular updates on Cardiff Council's Twitter feed. Cardiff's residents are encouraged to join the webcast or watch it back via our webcast library where you can find an archive of Council meetings.

The hard work that has gone on behind the scenes to develop this has been phenomenal, enabling us to be one of the first Councils in Wales to get this off the ground in a timely manner. The adapted process has involved working with IT to ensure the platform is secure, updating and training Members on the modified process and carrying out rigorous tests to ensure it was a success.

The team also established the first remote Planning Committee and were the first in Wales to include the public, allowing people across Cardiff to engage in the meeting and the democratic process.

Alongside the local meetings, our colleagues set up Joint Committees regionally, such as the Glamorgan Archive which involved organising a virtual meeting for six local authorities across Wales.

Moving forward the team will continually review this process and are working towards making the meetings more conventional as lockdown measures continue to ease.

The team continue to show commitment in valuing the democratic process they support and will continue to promote and be champions of the governance for the Council.

Diweddariad COVID-19: 25 Mehefin

Dyma ddiweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: sut i ddefnyddio ein Canolfannau Ailgylchu yn ystod pandemig y coronafeirws; gwybodaeth i rieni/gofalwyr cyn i ysgolion ailagor; a y broses ddemocrataidd yn parhau ar y we yn ystod cyfnod y cloi.

Sut i ddefnyddio ein Canolfannau Ailgylchu yn ystod pandemig y coronafeirws

Edrychwch ar ein hawgrymiadau gorau ar gyfer cyn, yn ystod ac ar ôl eich ymweliad â'n Canolfannau Ailgylchu:

Cyn Eich Ymweliad

- Dim ond os na allwch storio eich gwastraff yn ddiogel gartref y dylech fynd ag ef i Ganolfan Ailgylchu.
- Peidiwch â dod i'r Canolfannau Ailgylchu os ydych chi yn y categori agored i niwed, os ydych yn gwarchod eich hun, os ydych yn hunan-ynysu neu os oes gennych unrhyw symptomau o'r coronafeirws.
- Rhaid i chi drefnu ymweliad ar-lein cyn dod. Trefnwch slot yma.
- Peidiwch â dod ag unrhyw eitemau cyfyngedig i'r Ganolfan Ailgylchu. Nid ydym yn derbyn bagiau cymysg o wastraff (bagiau du) na bagiau ailgylchu gwyrdd ond erbyn hyn gallwn dderbyn eitemau mwy o faint, gan gynnwys setiau teledu a chyfrifiaduron/sgriniau.
- Os nad ydych chi'n siŵr a ellir ailgylchu eitem, gweler ein tudalen Ailgylchu A-Y.
- Rydym ni bellach yn derbyn trefniadau ar gyfer faniau yn y Canolfannau Ailgylchu. Bydd faniau'n gallu dod i'r Canolfannau Ailgylchu o ddydd Llun 29 Mehefin. Bydd gan faniau 20 munud yn y ganolfan, wedi'u cyfyngu i 1 ymweliad y mis, felly dim mwy na 12 ymweliad y flwyddyn. Os oes gennych fan a char, bydd pob ymweliad yn cyfrif tuag at y 12.
- Trefnwch eich eitemau wrth eu pacio er mwyn arbed amser i chi yn y Ganolfan Ailgylchu.
- Dim ond eitemau y gallwch eu codi i'r sgipiau ar eich pen eich hun y dylech chi eu pacio. Ni fydd ein staff yn gallu eich cynorthwyo i ddadlwytho.
- Dewch â'ch e-bost cadarnhau trefnu slot a phrawf o breswyliaeth yng Nghaerdydd i'w dangos i'r staff.
- Defnyddiwch app traffig amser cyfredol i weld pa mor brysur yw'r ffyrdd ger y Canolfannau Ailgylchu cyn i chi adael ar gyfer y slot amser a neilltuwyd i chi.

Yn Ystod Eich Ymweliad

- Peidiwch â chyrraedd y safle tan 5 munud cyn eich slot amser.
- Caniateir dim mwy na 10 munud i bob cerbyd ar gyfer dadlwytho ar y safle.
- Dylech chi ddisgwyl amserau aros hirach na'r arfer.
- Darllenwch yr holl arwyddion i'ch helpu i ddefnyddio'r safle'n ddiogel a chadw at y rheolau ymbellhau cymdeithasol.
- Byddwch yn amyneddgar ac yn barchus tuag at staff ar y safle a dilynwch eu cyfarwyddiadau – nid nhw sy'n gyfrifol am unrhyw oedi.
- Cewch le penodol i barcio wrth gyrraedd. Os nad oes aelod staff ar gael, dilynwch yr arwyddion rheoli traffig i barcio eich cerbyd.
- Gwisgwch fenig amddiffynnol a defnyddiwch ddiheintydd dwylo cyn ac ar ôl i chi ollwng eich eitemau. Bydd diheintydd dwylo hefyd ar gael ar y safle.
- Dim ond un person a gaiff adael y cerbyd i ollwng y gwastraff a mynd at sgip ar y tro.
- Mae canolfannau ailgylchu ar gyfer ailgylchu **gwastraff cartref yn unig**. Byddwn yn ymchwilio ac yn cymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw un sy'n ceisio defnyddio'r safleoedd i ailgylchu deunydd gweithgaredd masnachol.

Ar Ôl Eich Ymweliad

- Pan fyddwch yn cyrraedd adref o'r ganolfan ailgylchu, dylech olchi eich dwylo ar unwaith am o leiaf 20 eiliad yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

- Ar hyn o bryd, caiff ymweliadau â chanolfannau ailgylchu eu cyfyngu i 12 y cartref y flwyddyn, gyda dim mwy nag un ymweliad ar un diwrnod. Dim ond os na allwch storio eitemau'n ddiogel gartref heb risg o anaf neu niwed i'ch iechyd y dylech drefnu slot.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys rhestr helaeth o'r eitemau y gallwch ddod â nhw i'r Canolfannau Ailgylchu a'r eitemau na fyddant yn cael eu derbyn, ewch i: www.caerdydd.gov.uk/canolfannauailgylchu

Gwybodaeth i rieni/gofalwyr cyn i ysgolion ailagor

Bydd ysgolion ledled Cymru yn ailagor i rai disgyblion o ddydd Llun 29 Mehefin ac rydym wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol at ei gilydd, gan ateb y cwestiynau a allai fod gan rieni, gofalwyr neu ddisgyblion.

Ewch i'n Cwestiynau cyffredin yma i gael gwybod mwy am Iechyd a Diogelwch, presenoldeb, y diwrnod ysgol, arlwyo a mwy.

Gofynnir i blant a theuluoedd gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol lle bo modd ac mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo Teithio Llesol fel y ffordd fwyaf diogel ac iach o gyrraedd yr ysgol.

Pan nad yw Teithio Llesol yn bosibl, bydd cyfres o gynlluniau traffig newydd yn eu lle fel bod plant a theuluoedd yn gallu cydymffurfio â mesurau ymbellhau cymdeithasol yn ddiogel.

Bydd ffyrdd yn cael eu cau mewn 27 o safleoedd ysgol er mwyn hwyluso ymbellhau cymdeithasol mewn mannau gollwng a chasglu, sy'n golygu y bydd plant a theuluoedd yn gallu defnyddio ffyrdd lle bo angen.

Bydd mesurau eraill yn cynnwys lledu palmentydd a llwybrau a chyflwyno cyfyngiadau 20mya dros dro ar ffyrdd mewn rhai safleoedd ysgol.

Am restr lawn o'r ffyrdd fydd ar gau, ewch yma

Fel rhan o ymrwymiad Cyngor Caerdydd i hyrwyddo a chynorthwyo teithio llesol i'r ysgol, mae rhieni a phlant yn cael eu holi am y llwybrau y maent fel arfer yn eu cymryd ar droed, sgwter neu feic i helpu i gynllunio Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

I ddweud eich dweud ac i gael rhagor o wybodaeth ewch yma

Ymunwch yn y sgwrs #TeithioLlesolCdydd

Y Broses Ddemocrataidd yn Parhau ar y We yn ystod Cyfnod y Cloi

Yn ystod y cloi, mae Tîm Gwasanaethau'r Pwyllgorau, sy'n rhan o Gwasanaethau Democrataidd, wedi gosod safon ragorol i Gymru, gan weithio o bell i gefnogi parhad

y broses ddemocrataidd drwy ddatblygu cyfarfodydd Cyngor, Cabinet a Phwyllgor rhithwir a sicrhau bod y rhain ar gael ar-lein i'r cyhoedd drwy we-ddarllediad.

Cynhaliwyd y ffrwd Cyngor byw o bell gyntaf yn llwyddiannus drwy Microsoft Teams Ddydd Iau 21 Mai, gyda 75 o Aelodau yn mynychu'r cyfarfod dros y we. Caiff cyfarfod nesaf y Cyngor ei ffrydio'n fyw ar Dydd Iau 25 Mehefin, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ffrwd Twitter Cyngor Caerdydd. Mae trigolion Caerdydd yn cael eu hannog i ymuno â'r gweddarllediad neu ei wylio'n ôl drwy Public-i lle gallwch ddod o hyd i archif o gyfarfodydd y Cyngor.

Mae'r gwaith caled sydd wedi mynd rhagddo y tu ôl i'r llenni i ddatblygu hyn wedi bod yn aruthrol, gan ein galluogi i fod yn un o'r cynghorau cyntaf yng Nghymru i gael y maen arbennig hwn i'r wal mewn modd amserol. Mae'r broses sydd wedi ei haddasu wedi golygu gweithio gyda TG er mwyn sicrhau bod y llwyfan yn ddiogel, yn diweddaru ac yn hyfforddi Aelodau ar y broses ddiwygiedig ac yn cynnal profion trylwyr er mwyn sicrhau bod y peth yn llwyddiant.

Hefyd, sefydlodd y tîm y Pwyllgor Cynllunio o bell cyntaf a nhw oedd y cyntaf yng Nghymru i gynnwys y cyhoedd, gan ganiatáu i bobl ledled Caerdydd gymryd rhan yn y cyfarfod a'r broses ddemocrataidd.

Ynghyd â'r cyfarfodydd lleol, sefydlodd ein cydweithwyr Gydbwyllgorau, fel un Archifdy Morgannwg, a oedd yn golygu trefnu cyfarfod rhithwir i chwe awdurdod lleol ledled Cymru.

Wrth symud ymlaen bydd y tîm yn adolygu'r broses hon yn barhaus a gweithio tuag at wneud y cyfarfodydd yn fwy confensiynol wrth i'r cyfyngiadau barhau i lacio.

Mae'r tîm yn parhau i ddangos ymrwymiad gan werthfawrogi'r broses ddemocrataidd y maent yn ei chefnogi a byddant yn parhau i hyrwyddo a bod yn hyrwyddwyr llywodraethiant i'r Cyngor.